



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIO USA 2019, Philadelphia 1 – 7 Mehefin 2019

Prif Sectorau – Gwyddorau Bywyd

Y Cynnig

Hoffem wahodd eich cwmni i gymryd rhan mewn arddangosfa neu ymweliad â marchnadoedd allforio yn ffair fasnach BIO USA yn Philadelphia.

Mae'r digwyddiad hwn, a gefnogir gan Llywodraeth Cymru, yn cynnig cyfle cyffrous i fusnesau o bob maint gynyddu eu hallforion drwy gysylltu â busnesau yn y sector Gwyddorau Bywyd o bedwar ban y byd.

Pam BIO USA 2019?

Mae'r Biotechnology Innovation Organization (BIO) yn cynrychioli dros 1,100 o gwmnïau biotechnoleg, sefydliadau academaidd, canolfannau biotechnoleg gwladol a sefydliadau cysylltiedig ledled yr Unol Daleithiau ac mewn dros 30 o wledydd eraill.

Y llynedd yn BIO 2018, cafwyd pedwar diwrnod o weithgareddau a ysbrydolodd gynrychiolwyr dros 7,000 o gwmnïau o 67 o wledydd, gyda 46,916 o gyfarfodydd partneru – roedd hyn yn



Record Byd Guinness newydd am y 'Digwyddiad Partneru Busnes Mwyaf'.

Gall Llywodraeth Cymru helpu'ch busnes i drefnu cyfarfodydd yn ystod y digwyddiad naill ai â chwmnïau tebyg neu â darpar gwsmeriaid trwy ein rhaglenni helpu allforwyr.

Mwyaf yn y byd y byddwch yn paratoi cyn y digwyddiad, mwyaf yn y byd o lwyddiant a ddaw i'ch rhan, felly, cysylltwch â ni nawr!

Cost

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal i gwmnïau **naill ai** arddangos yn BIO USA **neu** ymweld fel rhan o daith fasnach*. Dyma'r opsiynau ar gyfer arddangos ac ymweld:

- Cynrychiolwyr Arddangos (A) – £3,200 ar gyfer dau o bobl, gan gynnwys ffi arddangos
- Cynrychiolwyr Taith Fasnach (B) – £1,200

Mae hyn yn cynnwys:

- Tocynnau awyren dwyffordd
- Cludiant yn Philadelphia

- Chwe noson o lety a brecwast
- Pas pedwar diwrnod ar gyfer BIO USA

*Mae'r cynnig hwn ar gael i un cynrychiolydd o bob cwmni os ydynt yn cymryd rhan yn y daith fasnach a dau gynrychiolydd o bob cwmni os ydynt yn arddangos. Rhaid bodloni'r amodau.

Amserlen

1 Mehefin	Gadael am Philadelphia
2 Mehefin	Sesiwn Frifffio/Arddangoswyr yn gosod stondinau
3-6 Mehefin	BIO USA
7 Mehefin	Dod yn ôl i Gymru

Cysylltu â ni

Mae BIO USA yn gyfle gwych i wneud cysylltiadau rhyngwladol allweddol yn y sector Gwyddorau Bywyd.

I gael ffurflen gais cysylltwch â:
lifesciences@gov.wales

Mynd â Cymru i'r Byd

Y Dyddiad Cau: Dydd Gwener 5 Ebrill 2019

Busnes Cymru | Business Wales



© Photo by Paul Loftland for PHLCVB